

# Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar y Fil Banc Seilwaith y DU

Awst 2022

Ar 12 Gorffennaf 2022, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar gyfer y Bil Banc Seilwaith y DU ac i gyflwyno adroddiad arno.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r pwyllgorau adrodd i'r Senedd erbyn 17 Tachwedd 2022 ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol.

